Amgueddfa Cymru: Cynllun Gweithredol 2018/2019

CYNNWYS

Rhan 1 Amgueddfa Cymru – Gwneud Gwahaniaeth i Gymru

Rhan 2 Cyfrifoldebau Statudol fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Rhan 3 Ein Gwerthoedd

Rhan 4 Ein Hamcanion Llesiant

Rhan 5 Ein Gweledigaeth a'n Blaenoriaethau Strategol

Rhan 6 Ein Hymrwymiadau a'n Canlyniadau Strategol: 2017-2021

Rhan 7 Amgueddfa Cymru yn 2021: Darlun o Lwyddiant

Rhan 8 Ein Cynlluniau 2018/2019

Rhan 9 Dangosyddion Perfformiad 2018/19

Rhan 10 Cynllun Cynhyrchu Incwm 2018/19

Rhan 11 Gwybodaeth Ariannol 2018/19

Rhan 1 Amgueddfa Cymru – Gwneud Gwahaniaeth i Gymru

Amgueddfa Cymru yw sefydliad diwylliannol mwyaf poblogaidd Cymru. Mae'n adnabyddus ar draws y byd ac wrth wraidd ein cenedl. Dros y ganrif ddiwethaf, rydym wedi cefnogi miliynau o bobl wrth iddynt archwilio'u gorffennol, y presennol a'r dyfodol posibl, ac rydym wedi casglu, diogelu a rhannu eu casgliadau a'u hatgofion â'r genedl.

Fel corff amgueddfeydd cenedlaethol Cymru, mae gan Amgueddfa Cymru ddyletswydd statudol ar ran ein gwlad – a sefydlwyd trwy Ddeddf Seneddol o'r cychwyn cyntaf ym 1908 ac a atgyfnerthwyd adeg adnewyddu ein Siarter Frenhinol yn 2006 – i gaffael a gofalu am y casgliad cenedlaethol ac i "hyrwyddo addysg y cyhoedd… drwy ddarlunio'n gyflawn wyddoniaeth, celfyddydau, diwydiannau, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru".

Dros y ganrif ddiwethaf, mae'r cyfrifoldeb hwn wedi bod yn sail gyfreithiol a moesegol ar gyfer ein gwaith gyda'r cyhoedd, yn ogystal â'n perthynas ag amgueddfeydd lleol yng Nghymru a rhai cenedlaethol ar hyd a lled y byd.

Heddiw rydym yn estyn allan at lawer mwy o bobl, mewn ffyrdd na allai sylfaenwyr yr Amgueddfa fyth fod wedi eu rhagweld. Bydd dinasyddion Cymru'r dyfodol yn wynebu eu cyfleoedd a'u heriau eu hunain. Ein cyfrifoldeb ni yw creu'r etifeddiaeth ddiwylliannol y bydd ei hangen arnynt ar gyfer eu cyfnod nhw.

Mae Amgueddfa Cymru yn adrodd hanes Cymru mewn nifer o ffyrdd gwahanol ac mewn nifer o fannau gwahanol. Yn 2017/18, croesawyd tua 1.8 miliwn o ymwelwyr i'n saith amgueddfa, a thua 2 filiwn o bobl ar-lein trwy ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol.

Mae dros bum miliwn o eitemau yn ein gofal. Mae tua thair miliwn o sbesimenau yn y casgliad hanes natur - dyma'r unig sail tystiolaeth genedlaethol ar gyfer newid hinsawdd yng Nghymru dros y canrifoedd, milenia ac oesoedd ac mae'n adnodd amhrisiadwy i'r genedl, nawr ac ar gyfer y dyfodol. Hefyd yn ein gofal mae archif archaeolegol dros 50% o amgylchedd hanesyddol Cymru, cyfanswm o 1,275,000 o wrthrychau yn ogystal â'r casgliadau mwyaf sylweddol o hanes gwerin a hanes llafar yng Nghymru, sef tua 396,823 o eitemau. Ni hefyd sydd â gofal y casgliadau cenedlaethol o gelf Gymreig ac Ewropeaidd, gan gynnwys rhai o'r gweithiau celf Argraffiadol gorau yn y byd.

Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynediad am ddim. Mae'r polisi wedi cael effaith ddramatig ers ei gyflwyno yn 2001; mae cyfanswm nifer yr ymwelwyr wedi mwy na dyblu, ac mae grwpiau cymdeithasol economaidd C2DE wedi cynyddu i gynrychioli 30% o'n cynulleidfa (neu oddeutu 600,000 o ymwelwyr bob blwyddyn). Gyda 42% o'n hymwelwyr yn dod o'r tu allan i Gymru, rydym hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi twristiaeth Cymru.

Rhan 2 Cyfrifoldebau statudol fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Dan delerau'r Ddeddf Seneddol a sefydlodd yr Amgueddfa ym 1908 a'r Siarter Frenhinol a adnewyddwyd yn 2006, mae gan Amgueddfa Cymru gyfrifoldebau fel amgueddfa genedlaethol Cymru y gall hi yn unig eu cyflawni.

Ein hamcanion, dan y Siarter Frenhinol, yw 'hyrwyddo addysg y cyhoedd drwy:

(i) ddarlunio'n gyflawn wyddoniaeth, celfyddydau, diwydiannau, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, a

(ii) chasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, y bwriedir iddynt hyrwyddo gwella dealltwriaeth a hybu ymchwil'.

Er mwyn hyrwyddo'r Amcanion hyn ymhellach, mae cyfrifoldeb arnom fel amgueddfa genedlaethol i wneud y canlynol:

(i) rhoi cyngor annibynnol ac arbenigol i'r Llywodraeth fel sy'n berthnasol i'n cyfrifoldebau cenedlaethol

(ii) fel storfa swyddogol Cymru o gasgliadau dynodedig Cymru sydd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol, caffael a gofalu am y rhain ar ran y genedl, gan ddarparu mynediad i'r cyhoedd, gan gynnwys ysgolheigion

(iii) cynnal safonau rheoli casgliadau sy'n gyson uchel (gan gynnwys storio, gwarchod a dogfennu)

(iv) darparu arweiniad deallusol a phroffesiynol ym mhob agwedd o'n cyfrifoldebau cenedlaethol fel amgueddfa genedlaethol

(v) cynnal safonau rhyngwladol yn gyson ym mhob agwedd o'n gwaith (heb hynny, er enghraifft, ni fyddai benthyciadau a chyfnewidiadau proffesiynol cenedlaethol a rhyngwladol yn bosib)

(vi) cynnal safonau gwasanaeth rhagorol i'r cyhoedd, gan gynnwys arddangosfeydd ac orielau, addysg a'r cyfryngau digidol

(vii) ymgymryd â gweithgareddau rhyngwladol mewn partneriaeth ag amgueddfeydd cenedlaethol a sefydliadau eraill o wledydd eraill

(viii) sicrhau bod seilwaith a gweithdrefnau effeithiol (gan gynnwys systemau digidol) wrth gefn pob gwasanaeth

(ix) darparu cyfleoedd hyfforddiant a datblygu effeithiol i staff, er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu i safonau cenedlaethol a rhyngwladol

(x) ymgymryd â gwaith ymchwil sy'n ofynnol i gyflawni'r safonau hyn ym mhob agwedd o'n gwasanaethau i'r cyhoedd

(xi) gwella lles ac enw da Cymru

(xii) sicrhau cynaliadwyedd ariannol a dyfodol y sefydliad a'n hasedau diwylliannol.

(xiii) sicrhau fod addysg gydol oes, ymgysylltu a chyfranogiad wrth wraidd ein gwaith.

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydliad cenedlaethol yng Nghymru, mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gefnogi'r broses o gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y cytunwyd yn y Llythyr Cylch Gwaith blynyddol.

Rhan 3 Ein Gwerthoedd

Mae gwerthoedd Amgueddfa Cymru yn cyd-fynd yn agos â'n Gweledigaeth, ein pwrpas a'n cyfrifoldebau fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac elusen dan Siarter Frenhinol.

Rydym wrthi'n gweithio gyda'n staff a'n Hymddiriedolwyr i adolygu ein gwerthoedd craidd a chytuno arnynt erbyn mis Mehefin 2018. Mae'r gwerthoedd drafft a nodwyd hyd yn hyn yn cynnwys Gonestrwydd a Chywirdeb, bod yn Gyfrifol, bod yn Gynhwysol, Cydweithio a Chreadigrwydd (neu Ysbrydoli).

Rydym yn gweithredu'n **onest ac yn gywir** ym mhob agwedd ar ein gwaith. Gellid ymddiried ynom ac rydym yn arddel safonau proffesiynol.

Rydym yn **gyfrifol** am ein gilydd ac am y bobl eraill sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ac rydym yn gofalu am les ein gilydd a'r casgliad cenedlaethol.

Rydym yn creu awyrgylch **cynhwysol**, sy'n parchu amrywiaeth ein staff a'n hymwelwyr, ac yn ceisio canfod ffyrdd o sicrhau perthnasedd y casgliad cenedlaethol.

Rydym yn **cydweithio** – boed hynny gyda'n gilydd, gyda'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu neu gyda'n partneriaid lleol, cenedlaethol neu ryngwladol.

Rydym yn **ysbrydoli creadigrwydd** trwy ein hamgueddfeydd, ein casgliad a thrwy ddoniau ein staff.

Rhan 4 Ein Hamcanion Llesiant

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Amgueddfa Cymru wedi'i chynnwys yn y Ddeddf ac, o ganlyniad, mae'n ofynnol i ni nodi a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u cynllunio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni pob un o'r nodau llesiant a chymryd pob cam rhesymol i fodloni'r amcanion hynny. Rydym yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi sut rydym yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Mae ein Gweledigaeth eisoes yn cyd-fynd â'r nodau cenedlaethol a nodir yn y Ddeddf, yn ogystal â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru. Rydym eisoes yn edrych i wella cyfleoedd dysgu a hyfforddi, gwrthsefyll effeithiau tlodi ac allgau, cynnal yr amgylchedd ac ansawdd lleoedd, gwella perfformiad economaidd, cefnogi cymdeithas greadigol a'r diwydiannau creadigol, a gwella iechyd a llesiant y cyhoedd.

Rydym wedi symleiddio Ymrwymiadau ein Gweledigaeth a sicrhau mai ein hamcanion llesiant yw ein hamcanion. Rydym hefyd wedi mapio pob amcan yn erbyn y Nodau Llesiant i ddangos pa amcanion yw'r prif gyfranwyr a pha rai sy'n darparu cyfleoedd i gyfrannu at y Nodau Llesiant. Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn rhoi trosolwg o'r ymarfer mapio hwn.

Amcanion y Weledigaeth wedi'u mapio yn erbyn Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



Prif gyfrannwr ☐ Cyfleoedd posibl ▪

			1	2	3	4	5	6	7
Ffynnu	01	Gweithredu fel stiwardiaid ein treftadaeth ddiwylliannol a naturiol	☐	▪	▪	▪	▪	■	■
	02	Datblygu, cynnal ac arallgyfeirio ein hadnoddau	☐	■		▪		▪	▪
	03	Datblygu ein harlwy twristiaeth ddiwylliannol	☐	▪			▪	■	■
Profiad	04	Adeiladu a chynnal gofodau ffisegol a digidol croesawgar	☐			■	▪	■	▪
	05	Adrodd straeon ysbrydoledig trwy arddangosfeydd a digwyddiadau	▪			■	▪	■	■
Dysgu	06	Datblygu sgiliau ein staff a'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau	☐			■	▪	■	
	07	Hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o iechyd a llesiant	▪		■	■	▪	▪	
	08	Hyrwyddo dysgu am oes a darparu cyfleoedd	☐		▪	■	▪	■	
Cyfranogi	09	Datblygu cyweithiau a rhwydweithiau partner effeithiol a chynaliadwy	▪	■	▪	▪	▪	■	■
	10	Cynnwys pobl a chymunedau yn ein gwaith	▪	▪		▪	■	■	

Rhan 5 Ein Gweledigaeth a’n Blaenoriaethau Strategol

Yn 2015, fe ddatblygon ni weledigaeth ddeng mlynedd newydd a phellgyrhaeddol: i fod yn sefydliad sy’n **Ysbrydoli pobl, newid bywydau**. Mae’r weledigaeth hon yn adlewyrchu dyhead i wreiddio’n gwaith yn nhraddodiadau diwylliannol a deallusol Cymru ac i ddatblygu patrwm newydd ar gyfer amgueddfeydd cenedlaethol ledled y byd.

Ein pwrpas, er mwyn cefnogi’r weledigaeth hon yw, trwy ein hamgueddfeydd a’n casgliadau, ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a’u lles, i ddarganfod, mwynhau a dysgu’n ddwyieithog, a deall lle Cymru yn y byd.

Yn ystod 2017/18, aethom ati i leihau a symleiddio Ymrwymiadau ein Gweledigaeth. Gwnaed y gwaith hwn mewn ymateb i’r argymhellion yn adolygiad Dr Simon Thurley o Amgueddfa Cymru yn 2017. Yn 2018/19, byddwn yn datblygu strategaeth ddeng mlynedd ddrafft, yn seiliedig ar ein gweledigaeth, gyda’n hundebau llafur a gynrychiolir a chyda Llywodraeth Cymru.

Mae pedwar maes allweddol i’n Hymrwymiadau: Ffynnu, Profiad, Dysgu a Chyfranogi.

Ymrwymiadau	Rydym yn cyflawni ein hymrwymiadau trwy:
Ffynnu	• gweithredu fel stiwardiaid ein treftadaeth ddiwylliannol a naturiol er lles cenedlaethau’r dyfodol yng Nghymru • datblygu, cynnal ac arallgyfeirio ein hadnoddau • datblygu ein harlwy twristiaeth ddiwylliannol i gefnogi economi Cymru
Profiad	• adeiladu a chynnal gofodau ffisegol a digidol croesawgar • adrodd straeon ysbrydoledig trwy arddangosfeydd a digwyddiadau
Dysgu	• datblygu sgiliau ein staff a’r bobl sy’n defnyddio ein gwasanaethau • hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o iechyd a llesiant • hyrwyddo dysgu am oes a darparu cyfleoedd
Cyfranogi	• datblygu cyweithiau a rhwydweithiau partner effeithiol a chynaliadwy • cynnwys pobl a chymunedau yn ein gwaith.

Rhan 6 Ein Hymrwymiadau a’n Canlyniadau Strategol: 2017-2021

Mae ein cyfrifoldebau fel amgueddfa genedlaethol yma yng Nghymru yn fwy, o ran hyd a lled y casgliadau a’r dosbarthiad daearyddol, nag unrhyw amgueddfa genedlaethol arall yn y DU. Dros y pum mlynedd diwethaf, yn enwedig trwy Broject Ailddatblygu Sain Ffagan, rydym wedi ennill ein plwyf yn y DU ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth mewn arfer amgueddfa a dehongli treftadaeth.

Byddwn yn bachu ar bob cyfle yng ngham nesaf ein datblygiad i weithio gydag amgueddfeydd lleol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri, yn ogystal â Chyngor y Celfyddydau, Cyfoeth Naturiol Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a sefydliadau celfyddydol, diwylliannol ac amgylcheddol eraill Cymru, er mwyn rhannu gwaith ymchwil, arbenigedd ac arferion gorau. Ein huchelgais yw bod yn sbardun er mwyn galluogi’r genedl i ddatblygu ei hadnoddau diwylliannol a chymdeithasol er budd y cyhoedd.

Eiddo pobl Cymru yw ein casgliadau a’n safleoedd hanesyddol. Byddwn yn ehangu’r cyfleoedd i gyfrannu’n ddiwylliannol a gwneud ymholiadau beirniadol, gan ddefnyddio’r casgliadau celf, gwyddoniaeth, hanes ac archaeoleg cenedlaethol mewn orielau, arddangosfeydd a digwyddiadau newydd arloesol yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn ogystal â’n hamgueddfeydd eraill. Byddwn hefyd yn mynd ati i wella ein seilwaith a’n hadeiladau trwy fuddsoddiad cyfalaf.

Ein gwefan a’r cyfryngau cymdeithasol yw ein hwythfed safle cyhoeddus. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi buddsoddi’n sylweddol mewn systemau digidol, dyluniad y wefan a gwasanaethau eraill i ddefnyddwyr. Megis dechrau yw hyn. Trwy ddigideiddio ein casgliadau a chynnig gweithgareddau cyfranogol digidol, byddwn yn creu adnodd diwylliannol a chreadigol cenedlaethol ar gyfer Cymru, ac am Gymru, sy’n hygyrch ym mhob cwr o’r byd.

Addysg, ffurfiol ac anffurfiol, yw un o’n dibenion sylfaenol. Fel arweinwyr addysgu diwylliannol yng Nghymru, byddwn yn parhau i ehangu ein gwasanaethau i ymwelwyr â’n safleoedd, gan gynnwys gwirfoddolwyr a phrentisiaid yn ogystal â defnyddwyr ar-lein. Er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn waith gweddnewidiol, trylwyr ac effeithiol, byddwn yn parhau i ddatblygu ein rhaglenni ymchwil a gwerthuso ar arferion amgueddfa effeithiol.

Rydym eisoes yn arwain y ffordd yn y sector amgueddfeydd wrth gyrraedd cynulleidfa gymdeithasol amrywiol, a dyma un o’n cryfderau mwyaf. Deallwn y bydd ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd yn galw ar barhau i newid ein harferion gwaith a rhoi mwy o lais i’n partneriaid yn y gymuned. Byddwn yn sicrhau y caiff hawl i gyfranogiad diwylliannol ei wreiddio’n ddwfn yn ein gwaith, gyda chymorth Sefydliad Paul Hamlyn a menter Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Tynnu’r Llwch.

Byddwn yn sbarduno cynnydd go iawn ym mhob un o'n meysydd ymrwymiad dros y 3 blynedd nesaf hyd 2021. Yn yr adran hon, nodir sail ein hymrwymiadau. Yn adran 7 nodir yr hyn yr ydym am ei gyflawni i'r genedl ac i bobl Cymru a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i sicrhau y bydd hyn yn digwydd.

FFYNNU

Trwy ein saith amgueddfa genedlaethol a'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol, rydym yn cadw dros 5 miliwn o eitemau mewn ymddiriedolaeth ar gyfer pobl Cymru a chenedlaethau'r dyfodol. Ni yw prif storfa deunydd yn ymwneud â threftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru, a deunydd rhyngwladol sy'n helpu i ddiffinio lle'r genedl yn y byd. Trwy ein hamgueddfeydd a'n profiadau ar-lein, rydym wedi ymrwymo i wella llesiant diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd Cymru. Rydym yn cefnogi hefyd ddatblygiad y sector trwy weithio gyda Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru a phartneriaid eraill megis Oriel y Parc.

Mae pob £1 a fuddsoddir ynom gan Lywodraeth Cymru yn cynhyrchu £4 o wariant ychwanegol yng Nghymru, gan gyfrannu at £83 miliwn o Werth Ychwanegol Gros (GYG) i economi Cymru - sef y GYG mwyaf o unrhyw sefydliad diwylliannol a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru. Rydym yn disgwyl iddo gynyddu gan fod y gyfran o'n hymwelwyr o dramor wedi cynyddu'n raddol ers 2012 o 37% i 42%. Yn 2016/17, fe godon ni £10.3 miliwn o adnoddau nad ydynt yn adnoddau Cymorth Grant (sy'n cynnwys ein cwmni masnachu Mentrau AOCC Cyf., ymgynghoriaethau ymchwil ac arbenigol, rhoddion a nawdd). Yn 2018/19, byddwn yn recriwtio Cyfarwyddwr Masnachol i arwain ehangiad sylweddol o'n gweithgareddau cynhyrchu incwm, yn agor cwrs rhaffau uchel yn Sain Ffagan ac yn datblygu profiadau rhithwir a realiti estynedig yn seiliedig ar ein casgliadau. Mae cefnogi twristiaeth ddiwylliannol yn rhan bwysig arall o'n gwaith, trwy weithio mewn partneriaeth a chefnogi mentrau Llywodraeth Cymru/Croeso Cymru megis yr ymgyrchoedd 'Blwyddyn y…'.

Mae gennym raglen ryngwladol ar waith sy'n cynnwys partneriaethau tymor hir a ategir gan Femoranda Cyd-ddealltwriaeth gydag amgueddfeydd a llywodraethau cenedlaethol yn Tsieina a Japan. Rydym yn gweithio'n fyd-eang hefyd o ran benthyciadau, projectau ymchwil cydweithredol ac ymgynghoriaeth. Mae ein harddangosfeydd teithiol dros y degawd diwethaf wedi cael eu gweld yng Ngheufor Persia, Unol Daleithiau America a Japan.

PROFIAD

Mae profiad ymwelwyr yn cynnwys ymweliadau â'n hamgueddfeydd a'r cyfle i ryngweithio trwy gyfryngau digidol. Mae'r ddwy elfen yn tyfu. Yn 2017/18, fe groesawon ni tua 1.8 miliwn o ymwelwyr i'n saith amgueddfa ledled Cymru a thros 1.6 miliwn o ymweliadau â'n gwefannau. Rydym yn parhau i gynnig mynediad am ddim i bob un o'n hamgueddfeydd, gyda chefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru. Mae dros 90% o adborth ymwelwyr yn gadarnhaol ac rydym yn gwrando ar ein cynulleidfaoedd ac yn ymgysylltu â nhw i wella ein gwasanaethau. Rydym yn sicrhau hefyd bod ein hamgueddfeydd yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda trwy fuddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw ataliol a thrwy weithio gyda phartneriaid i fuddsoddi yn ein hamgueddfeydd fel eu bod yn berthnasol ac yn ffynnu er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn datblygu gwell integreiddio rhwng y profiadau ffisegol a digidol rydym yn eu cynnig. Rydym yn gweithio gyda'n hymwelwyr a'n partneriaid i wella'r ffordd rydym yn creu amgueddfeydd croesawgar y gall pobl eu mwynhau fel y dymunant. Rydym yn gwneud hyn trwy'r straeon rydym yn eu hadrodd gan ddefnyddio ein casgliadau a thrwy gysylltu â phob math o gynulleidfaoedd trwy ein harddangosfeydd a'n digwyddiadau. Yn 2018/19, mae gennym yr arddangosfeydd o bwys rhyngwladol *Kizuna: Japan, Cymru, Dylunio* ac *Artes Mundi 8* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae gennym arddangosfeydd o arwyddocâd mwy lleol yn Amgueddfa Wlân Cymru, Big Pit ac Amgueddfa Lechi Cymru, ynghyd â chyfres o arddangosfeydd yn cefnogi Blwyddyn y Môr yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Mae ein rhaglen ddigwyddiadau wedi cael ei hadolygu a'i hadnewyddu er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth yn ein hymwelwyr. Mae'n gymysgedd o ddigwyddiadau a dathliadau cenedlaethol megis rhaglen y Rhyfel Byd Cyntaf, *Cymru'n Cofio*; yr Eisteddfod Genedlaethol a Pride, ynghyd â rhaglenni amgueddfa megis yr Ŵyl Fwyd, Nosweithiau Calan Gaeaf a Nosweithiau Nadolig yn Sain Ffagan, sy'n ceisio cysylltu ag ymwelwyr, cynhyrchu incwm ac annog ymwelwyr i ddychwelyd i'n gweld ni eto.

DYSGU

Dysgu trwy ymgysylltu â diwylliant yw ein prif rôl. Rydym yn ceisio ennyn brwdfrydedd i ddysgu ymhlith ein staff a'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Nod ein rhaglenni dwyieithog yw datblygu sgiliau pobl, hyrwyddo dealltwriaeth o iechyd a llesiant a chefnogi dysgu gydol oes. Ni yw darparwr addysg tu allan i'r ystafell ddosbarth mwyaf Cymru. Mae dros 180,000 o ddisgyblion a myfyrwyr yn ymgysylltu â'n rhaglenni ysgol ac achrededig, a 250,000 arall yn ymgysylltu â'n rhaglenni gweithgareddau a digwyddiadau bob blwyddyn. Rydym yn gweithio gyda'r consortia addysg rhanbarthol ac yn cefnogi Dysgu Creadigol trwy'r Celfyddydau. Mae ein rhaglenni'n datblygu'r meysydd allweddol Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd, rydym yn

cefnogi datblygiad llythrennedd digidol ac rydym yn cyhoeddi adnoddau dysgu digidol ar Hwb.

Fel y prif ddarparwr sy'n gyfrifol am ddarparu a gwerthuso'r cynllun Cyfuno: Creu Cyfleoedd trwy Ddiwylliant, rydym wedi cyflwyno ystod o raglenni ar draws pob un o'n hamgueddfeydd, wedi'u teilwra i annog a grymuso pobl i gymryd rhan weithredol mewn diwylliant a threftadaeth. Mae gennym gyfraniad i'w wneud at gyflogadwyedd a datblygu sgiliau pobl, ac rydym yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli, lleoliadau hyfforddiant a phrentisiaethau. Rydym yn bartner cydweithredol yn y gwaith o ddarparu Uchelgais Diwylliannol: Creu Amrywiaeth yn y Gweithlu Treftadaeth, gan weithio gyda MALD, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, Coleg Caerdydd a'r Fro ac eraill i gefnogi lleoliadau hyfforddeion fel rhan o raglen Llywodraeth Cymru, Cymunedau am Waith. Yn ogystal â chefnogi cyrsiau achrededig, rydym yn cefnogi datblygiad sgiliau 'meddal' pobl, megis creadigrwydd, hyder, cyfathrebu a gwaith tîm. Mae ein rhaglenni dysgu fel teulu yn cefnogi'r blynyddoedd cynnar, ac mae ein rhaglenni iechyd a llesiant yn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.

Mae ymchwil yn sail i'n holl waith, ac mae ein strategaeth ymchwil yn rhoi blaenoriaeth i feysydd allweddol i'w datblygu i'r dyfodol. Trwy gysylltiadau strategol y mae memoranda Cyd-ddealltwriaeth yn sail i lawer ohonynt, rydym yn gweithio gyda sefydliadau ymchwil eraill ac yn gwneud cyfraniad allweddol at ymchwil genedlaethol a rhyngwladol yn ein meysydd arbenigol. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant mewnol o ddysgu, gan gefnogi sgiliau sector, llesiant staff, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd cyflawni Buddsoddwyr mewn Pobl 40 ar draws y sefydliad yn gwella ein perfformiad ac yn datblygu ein prosesau rheoli pobl ymhellach.

CYFRANOGIAD

Rydym yn gweithio gyda phob math o bartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i ddatblygu a chyflawni ein gwaith ac i wella llesiant diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru. Rydym yn gweithio gydag amgueddfeydd lleol, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y Comisiwn Brenhinol a sefydliadau celfyddydol, diwylliannol ac amgylcheddol eraill yng Nghymru i rannu arbenigedd ac arfer da. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein heffaith yng Nghymru a thu hwnt ac rydym wedi datblygu partneriaethau newydd sylweddol gyda holl brifysgolion Cymru. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru ac yn cydweithredu â Cadw, er enghraifft, i gefnogi Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon fel Safle Treftadaeth y Byd. Yng Ngwynedd, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cais i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer diwydiant llechi'r Gogledd.

Mae ein cred mewn democratiaeth ddiwylliannol a hawl pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn sail i'n gwaith. Rydym yn cefnogi gwaith swyddfeydd y comisiynwyr yng Nghymru, yn benodol y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn,

Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol. Rydym wedi sefydlu cytundebau partneriaeth gydag elusennau a sefydliadau sector cyhoeddus a thrydydd sector yng Nghymru er mwyn gweithio gyda’n gilydd yn well. Rydym wedi datblygu modelau i gynnwys pobl yn ein penderfyniadau a’n harferion gwaith. I ni, nid yw cyfranogiad yn ddiwedd ynddo’i hun; yn hytrach, teimlwn ei fod yn broses y gellir ei defnyddio mewn gwahanol ffyrdd sy’n briodol i wahanol amgylchiadau pobl. Rydym yn mabwysiadu’r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol i gyfarwyddo ein gwaith yn y maes hwn. Rydym am i’n hamgueddfeydd alluogi a bod yn gynhwysol, a chanddynt fentrau a ddyluniwyd i gynyddu cyfranogiad a gefnogir gan Sefydliad Paul Hamlyn a menter Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Tynnu’r Llwch. Felly, gobeithiwn y bydd ein gwaith yn helpu i wella a chyfoethogi bywydau’r rhai sy’n wynebu anfantais.

Rhan 7 Amgueddfa Cymru yn 2021: Darlun o Lwyddiant

Ein huchelgais yw parhau i wella ein casgliadau, ein hadeiladau a'n gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd. Mae ein Gweledigaeth ar gyfer Amgueddfa Cymru yn 2021 yn cymryd y gallwn gynnal ein hadnoddau i'r un graddau a lefelau â 2018/19 o leiaf, ac y byddwn yn llwyddo i ddenu arian ychwanegol ar gyfer arddangosfeydd a phrojectau cyfalaf mawr. Mae hefyd yn seiliedig ar adroddiad diweddar Dr Simon Thurley.

Erbyn 2021, byddwn wedi:

- ailagor Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn llwyr, gan gynnwys Gweithdy, y Prif Adeilad ar ei newydd wedd, Bryn Eryr, Llys Llywelyn a Chrug Oes yr Efydd; a bydd y Cynllun Gweithgareddau ar waith
- cynyddu niferoedd ymwelwyr ein hamgueddfeydd
- cynyddu'r incwm a gynhyrchwn ein hunain
- datblygu a gweithredu Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu integredig newydd, er mwyn ein helpu i ddatblygu cynulleidfaoedd a chynhyrchu incwm
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer pob un o'n hamgueddfeydd, yn seiliedig ar argymhellion Adroddiad Thurley
- adolygu pob rhaglen addysg ffurfiol a llunio rhaglen ddiwygiedig ar draws ein hamgueddfeydd i gefnogi'r Cwricwlwm Cenedlaethol arfaethedig newydd
- digideiddio 20,000 o eitemau ychwanegol gan gynnwys gweithiau celf, sbesimenau gwyddorau naturiol a gwrthrychau hanes ac archaeoleg, a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan gyda gwybodaeth gyd-destunol sy'n hygyrch i bawb
- cwblhau'r gwaith o ailgynllunio ein gwefan, gydag adnoddau'n cynnwys cyfoeth o wrthrychau a gweithgareddau creadigol a nifer uwch o ymweliadau â'r wefan
- sefydlu Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn ganolfan bwysig ar gyfer arddangosfeydd dros dro yng Nghymru a gorllewin Lloegr
- cefnogi ein partneriaid mewn amgueddfeydd ac orielau lleol i ddatblygu cynigion am nawdd er mwyn cynyddu eu capasiti i greu a derbyn arddangosfeydd teithiol
- sefydlu partneriaethau ffurfiol a strategol trwy Femoranda Cyd-ddealltwriaeth â phob prifysgol fawr yng Nghymru, sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector yng Nghymru sy'n gweithio i daclo anfantais, yn ogystal â Chyfoeth Naturiol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- datblygu arddangosfeydd teithiol pellach ar gyfer Ewrop, Asia neu Ogledd America

- datblygu a chyhoeddi Strategaeth Datblygu Casgliadau newydd, sy'n pennu meysydd casglu gan gynnwys dylunio a hanes Cymru'r 20fed ganrif, ac ehangu rôl y cyhoedd wrth ddatblygu ein casgliadau
- atgyfnerthu ein safle, ynghyd â safle Cymru, yn arweinydd byd-eang ar gynhwysiant cymdeithasol a thaclo tlodi trwy gyfranogiad diwylliannol
- ar y cyd â phartneriaid yng Nghymru, datblygu a chyhoeddi Siarter Geoamrywiaeth i Gymru
- gweithio gyda'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD), Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru, y Gymdeithas Amgueddfeydd a Chymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) i ddatblygu gweledigaeth a chynllun gweithredu i ddiogelu dyfodol y sector amgueddfeydd yng Nghymru
- gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Croeso Cymru i hyrwyddo ein hamgueddfeydd yn gyrchfannau allweddol ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol
- gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu strategaeth sgiliau ar gyfer y sector
- cynnal ein statws Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr.

Rhan 8 Ein Cynlluniau 2018/2019

Gweithgarwch lefel uchel	Cam gweithredu / Gweithgarwch (2018/19)	Dyddiadau cerrig milltir a thargedau	Cyfarwyddwr/Arweinydd o blith y staff
FFYNNU			
Amcan Strategol 1: Gweithredu fel stiwardiaid ein treftadaeth ddiwylliannol a naturiol er lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru			
Datblygu strategaethau a pholisïau fydd yn sail i'n gwaith a'u rhoi ar waith	Diwygio'r Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned i gynnwys cynllun ar gyfer Cyfuno (2019+) a mentrau megis Tynnu'r Llwch (Cronfa Dreftadaeth y Loteri) a Rhagori (Paul Hamlyn)	Ionawr 2019	Cyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu/Rheolwr Ymgysylltu a Chyfranogiad Cymunedol
	Adolygu'r System Rheoli Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i ddiweddaru polisïau a systemau ac asesu dichonoldeb system rheoli iechyd a diogelwch ddwyieithog ar-lein (rhaglen 18 mis)	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr/ Pennaeth Safleoedd
	Monitro perfformiad sefydliadol a chyflwyno adroddiad i'r Uwch Dîm Rheoli, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'i bwyllgorau	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol

Gweithgarwch lefel uchel	Cam gweithredu / Gweithgarwch (2018/19)	Dyddiadau cerrig milltir a thargedau	Cyfarwyddwr/Arweinydd o blith y staff
	Sicrhau bod stiwardiaeth ariannol, cynlluniau ariannol a gwaith rheoli cyllideb yn cael eu monitro a'u hadrodd	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / Pennaeth Cyllid
	Cynhyrchu Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol	Mehefin 2018	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / Pennaeth Cyllid
	Gwella seibrddiogelwch ar draws y sefydliad trwy achrediad llwyddiannus Cyber Essential Plus/IASME	Mehefin 2018	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / Pennaeth TGCh
	Datblygu a gweithredu'r Polisi Sylwadau ac Adborth Cwsmeriaid	Hydref 2018	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr
	Monitro ac adolygu effeithlonrwydd ynni blynyddol a chynnal achrediad amgylcheddol trwy Gynllun Seren BS8555	Ebrill 2018	Pennaeth Adeiladau ac Ystadau
Datblygu a gofalu am y casgliadau cenedlaethol, gan sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn hygyrch, heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol.	Datblygu a gweithredu cynlluniau curadu a chasglu gyda thargedau ar gyfer pob maes casglu	Rhagfyr 2018	Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil
	Cynnal y Safon Achredu Amgueddfeydd a pharhau i baratoi ar gyfer Achredu Archifau	Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil/Cyfarwyddwr Cyffredinol

Gweithgarwch lefel uchel	Cam gweithredu / Gweithgarwch (2018/19)	Dyddiadau cerrig milltir a thargedau	Cyfarwyddwr/Arweinydd o blith y staff
Rhoi safonau'r Gymraeg ar waith a chefnogi polisi'r Gymraeg a deuddiwylliannol	Cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar safonau'r Gymraeg	Medi 2018	Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu/Cydlynydd y Gymraeg
	Cwblhau ein Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg ar gyfer 2019/20	Tachwedd 2018	Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu/Cydlynydd y Gymraeg
Cyfrannu at yr astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer yr Amgueddfeydd Pêl-droed/Chwaraeon a Chelfyddyd Gyfoes newydd	Cyfrannu fel sy'n ofynnol ac adolygu argymhellion a gyflwynir i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i'w hystyried	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu/
Cyfrannu at Bartneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol	Mynychu cyfarfodydd y Grŵp Llywio a chyfrannu at waith y bartneriaeth	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Cyffredinol / Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu/Pennaeth AD Eraill o bosibl, gan ddibynnu ar thema'r gwaith
Amcan Strategol 2: Datblygu, cynnal ac arallgyfeirio ein hadnoddau			
Arallgyfeirio a chynyddu incwm	Penodi Cyfarwyddwr Masnachol i ddatblygu'r gwaith o gynhyrchu mwy o incwm	Gorffennaf 2018	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / Pennaeth AD/ Cyfarwyddwr Cyffredinol
	Cyflwyno cynllun incwm	Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / yr Uwch Dîm Rheoli
	Datblygu Strategaeth Incwm sefydliadol	Mawrth 2019	Cyfarwyddwyr Masnachol

Gweithgarwch lefel uchel	Cam gweithredu / Gweithgarwch (2018/19)	Dyddiadau cerrig milltir a thargedau	Cyfarwyddwr/Arweinydd o blith y staff
	Arallgyfeirio a chynhyrchu mwy o incwm fel yr amlinellir yn y Cynllun Cynhyrchu Incwm	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019.	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / yr Uwch Dîm Rheoli
Pennu a gweithredu cynlluniau codi arian	Cynyddu cyfalaf ac incwm codi arian projectau	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019.	Cyfarwyddwr Datblygu
Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru, yn amodol ar gyllid	Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwaith barhau â'r ailddatblygu, yn unol ag argymhelliad Adolygiad Thurley	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / Grŵp Project Cysyniadol
Trafod sefydlu Caerllion Rufeinig gyda Cadw, yn amodol ar gyfarwyddeb gan Lywodraeth Cymru	Parhau i drafod gyda Cadw a phartneriaid eraill gyda chymorth Llywodraeth Cymru, yn unol ag argymhelliad Adolygiad Thurley	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr
Cyflawni'r briff ar gyfer uwchgynllun Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd	Datblygu briff dichonoldeb uwchgynllun strategol ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, tendro a phenodi contractiwr	Hydref 2018	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr/ Pennaeth Adeiladau ac Ystadau
Rhoi'r cynllun cyfalaf cynnal a chadw ar waith	Rhoi'r Rhaglen Cynnal a Chadw Hanfodol ar waith fel yr amlinellir yng nghwmpas cymeradwy'r gwaith	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr/ Pennaeth Adeiladau ac Ystadau
	Datblygu cynllun cynnal a chadw o brojectau sy'n barod i'w caffael	Medi 2018	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr/ Pennaeth Adeiladau ac Ystadau

Gweithgarwch lefel uchel	Cam gweithredu / Gweithgarwch (2018/19)	Dyddiadau cerrig milltir a thargedau	Cyfarwyddwr/Arweinydd o blith y staff
Datblygu manyleb a chaffael system newydd, yn amodol ar gyllid	Datblygu manyleb yn unol ag argymhelliad Adolygiad Thurley, a chychwyn ar y broses gaffael	Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Datblygu/ Pennaeth Cyfryngau Digidol
Amcan Strategol 3: Datblygu ein harlwy twristiaeth ddiwylliannol			
Gweithio mewn partneriaeth â Croeso Cymru i gyflwyno arlwy twristiaeth ddiwylliannol	Parhau i ymgysylltu â Croeso Cymru i ddatblygu arlwy twristiaeth ddiwylliannol	Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwyr/Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu/ Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus
Datblygu Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu a'i rhoi ar waith	Diweddaru Strategaethau Cyfathrebu Corfforaethol, Cyfathrebu Mewnol, Marchnata ac Eiriolaeth a sicrhau eu bod yn cyfateb i'w gilydd ac i'r weledigaeth	Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Cyffredinol/ Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus/Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu
Cyflwyno strategaeth bum mlynedd ar gyfer arddangosfeydd teithiol rhyngwladol mawr	Datblygu strategaeth ar gyfer ariannu a gweithredu rhaglen arddangosfeydd teithiol rhyngwladol mawr	Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr/ Rheolwr Arddangosfeydd Teithiol
	Parhau i gyflwyno arddangosfeydd rhyngwladol sy'n cynhyrchu incwm	Parhaus	Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil/Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr/
PROFIAD			
Amcan Strategol 4: Adeiladu a chynnal gofodau ffisegol a digidol croesawgar			

Gweithgarwch lefel uchel	Cam gweithredu / Gweithgarwch (2018/19)	Dyddiadau cerrig milltir a thargedau	Cyfarwyddwr/Arweinydd o blith y staff
Ailddylunio'r wefan i wella profiad defnyddwyr	Cwblhau'r gwaith o ailddylunio'r wefan	Mehefin 2018	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr/ Pennaeth Cyfryngau Digidol
	Sicrhau llif cyson o gynnwys i wella profiad defnyddwyr	Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr/ Pennaeth Cyfryngau Digidol
Trawsnewid cysylltedd WiFi i'r cyhoedd ar draws ein hamgueddfeydd	Uwchraddio WiFi yn raddol ar draws pob amgueddfa, a chwblhau'r gwaith yn Sain Ffagan ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd erbyn mis Tachwedd	Tachwedd 2018	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / Pennaeth TGCh
	Cwblhau'r gwaith ym mhob amgueddfa arall erbyn mis Mawrth	Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / Pennaeth TGCh
Datblygu a gwella rheoli gwybodaeth	Rhoi Cynllun Gweithredu GDPR ar waith i gydymffurfio â rheoliadau	Mai 2018	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth
Darparu gofal cwsmer a phrofiad ymwelwyr rhagorol	Gweithredu'r Strategaeth Profiad Ymwelwyr a'r Cynllun Gweithredu	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr/ Pennaeth Sain Ffagan/ Rheolwyr Amgueddfa
Amcan Strategol 5: Adrodd straeon ysbrydoledig trwy arddangosfeydd a digwyddiadau			
Datblygu amgueddfa ddigidol gyda chasgliadau wedi'u digideiddio a	Cwblhau'r Cynllun Gweithredu Profiad Digidol	Mai 2018	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr/ Pennaeth Cyfryngau

Gweithgarwch lefel uchel	Cam gweithredu / Gweithgarwch (2018/19)	Dyddiadau cerrig milltir a thargedau	Cyfarwyddwr/Arweinydd o blith y staff
chyfryngau lluosog ar gyfer defnydd creadigol			Digidol/Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil
	Cynyddu mynediad y cyhoedd at y Casgliadau Ar-lein gyda thargedau meintiol ar gyfer adrannau trwy gynyddu platfformau a chynnwys ein casgliadau, gan gynnwys casgliad David Hurn	Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil
Cynnal rhaglen arddangosfeydd flynyddol	Cynnal y rhaglen arddangosfeydd flynyddol ar draws ein hamgueddfeydd a'n lleoliadau partner	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr
Cynnal rhaglen ddigwyddiadau flynyddol	Cynnal rhaglen ddigwyddiadau flynyddol yn unol â'r Strategaeth Digwyddiadau	Mehefin, Medi a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu/Rheolwr Digwyddiadau
Sicrhau bod strategaethau casglu yn cefnogi ymgysylltu â'r cyhoedd a datblygu cyd-guradu/cyd-gasglu fel methodoleg	Gweithredu'r Strategaeth Datblygu Casgliadau gyda chynllun gweithredu a thargedau	Rhagfyr 2018	Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil
	Datblygu a chytuno ar feysydd casglu newydd	Rhagfyr 2018	Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

Gweithgarwch lefel uchel	Cam gweithredu / Gweithgarwch (2018/19)	Dyddiadau cerrig milltir a thargedau	Cyfarwyddwr/Arweinydd o blith y staff
	Datblygu a chytuno ar ymagwedd at ddull casglu ymgyrchol	Rhagfyr 2018	Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil
Cyfrannu at ddigwyddiadau cenedlaethol Cymru	Datblygu a hwyluso ein presenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol a chefnogaeth ar gyfer mentrau cenedlaethol	Ebrill 2018-Chwefror 2019	Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu/Rheolwr Ymgysylltu a Chyfranogiad Cymunedol
	Datblygu ein presenoldeb yn Sioe'r RHS	Ebrill 2018	Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil
